# EIRIOLWR PROFFESIYNOL ANNIBYNNOL

| | |
|---|---|
| TGP Cymru yw un o'r elusennau mwyaf blaenllaw yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc, a theuluoedd sy'n agored i niwed trwy ystod o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Ariennir gwasanaethau TGP Cymru gan sawl cyllidwr ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru. | tgp CYMRU PLANT A THEULUOEDD CHILDREN AND FAMILIES |

**Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau Eiriolaeth – Eiriolaeth Cwm Taf Morgannwg

**Yn gyfrifol i:** Rheolwr Tîm Eiriolaeth CTM

**Lleoliad:** Gweithio hybrid yn unol â'n Fframwaith Gweithio o Unrhyw Le a theithio o amgylch ardal Cwm Taf Morgannwg.

**Diben y swydd:**
Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ac eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n gymwys i fanteisio ar y gwasanaeth.

**Atebolrwydd / Cyfrifoldebau**

- Siarad ar ran plant a phobl ifanc a lle bo hynny'n bosibl, eu galluogi i siarad drostyn nhw eu hunain
- Helpu plant a phobl ifanc i ddeall a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau; a chynrychioli'u barn, dymuniadau ac anghenion i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau – a cheisio unioni am dor hawliau dynol
- Mynd gyda phlant a phobl ifanc i fforymau gwneud penderfyniadau a sicrhau bod eu barn yn cael ei chynrychioli – gan gynnwys trafod gyda gweithwyr cymdeithasol, uwch reolwyr, cyfreithwyr gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol eraill ar ran plentyn / person ifanc
- Helpu pobl ifanc i archwilio dewisiadau, deall hawliau a gwneud cwynion
- Cynorthwyo Rheolwr y Tîm i asesu allbynnau'r Gwasanaeth yn erbyn fframwaith y canlyniadau cytunedig drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol, gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru i gynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ac arfer gwrthwahaniaethol drwy'r gwaith sy'n cael ei gyflawni yn y swydd
- Rhwydweithio'n briodol gyda chydweithwyr a'r gymuned, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol

Ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau eraill hynny sy'n ofynnol yn rhesymol gan y Sefydliad ac sy'n gyson â'r radd.

**Cyfrifoldeb ychwanegol:**
0

**Cyfrifoldebau rheoli llinell:**

0

**Cyfrifoldebau rheoli cyllideb:**
£0

**Gradd:**
MS6

**Amodau gwaith:**
22.5 awr yr wythnos gydag ymagwedd hyblyg at yr wythnos waith a fydd yn cynnwys rhywfaint o weithio yn ystod y penwythnos a gyda'r nos gydag ambell i arhosiad dros nos i fynd i gyfarfodydd, cynadleddau neu hyfforddiant.

Bydd angen teithio i wahanol leoliadau ledled Cymru a'r DU hefyd.

**Cymwysterau:**

- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a gwaith cymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel Iechyd ac Addysg (dymunol)

**Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau:**

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Cynhyrchu canlyniadau o ansawdd mewn modd sy'n canolbwyntio ar wasanaeth, sy'n amserol ac sydd wedi ymrwymo i gyflawni canlyniadau cytunedig
- Gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid ac yn gallu cydnabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd eraill
- Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrando'n weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Bod yn agored i ddulliau newydd o weithredu a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- Ceisio cyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

**Gwybodaeth / Profiad:**

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a phrofiad o gyflawniad yn y canlynol:

- Eiriolaeth
- Hawliau plant
- Gweithio mewn partneriaeth â phlant / pobl ifanc
- Gweithio gyda phlant / pobl ifanc i nodi sut a gan bwy y maen nhw eisiau cael eu cynrychioli
- Diogelu

**Eraill**

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiad TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo mewn eraill
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth

- Trwydded yrru lawn a chyfle i ddefnyddio trafnidiaeth *(Mewn rhai amgylchiadau, byddai'n bosibl ystyried ymgeiswyr nad ydynt yn gallu gyrru o ganlyniad i anabledd.)*
- Gallu siarad Cymraeg (dymunol)